Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 8 Chwefror 2007

Teitl: £5.3 miliwn i gryfhau safle Athrofa Addysg Uwch Gogledd-Ddwyrain Cymru

Mae Athrofa Addysg Uwch Gogledd-Ddwyrain Cymru wedi cael £5.3 miliwn i gryfhau ei safle fel sefydliad addysg uwch Cymru yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

Bydd y buddsoddiad, o Gronfa Datblygu Strategol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn cael ei wneud dros gyfnod o dair blynedd a bydd yn helpu'r sefydliad i ennill yr hawl i roi ei raddau ei hun ac i sicrhau statws prifysgol yn y dyfodol.

Bydd cyfran sylweddol o'r arian yn cael ei wario ar Adeilad Technoleg Ddylunio newydd a fydd yn gwella'r adnoddau dysgu yn yr Athrofa. Bydd yr adeilad yn dwyn ynghyd yr adrannau peirianneg, dylunio a chyfrifiadureg, gan ailwampio'r adrannau a'u cwricwla yn y broses.

Defnyddir gweddill yr arian i hybu adnoddau dynol yr Athrofa. Bydd hyn yn cynnwys cyfres o weithgareddau datblygu staff a nifer o benodiadau newydd i adeiladu gallu mewn sawl pwnc a sawl maes gweithredol.

Meddai'r Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd CCAUC: "Fel rheol rydym yn annog sefydliadau addysg uwch i gryfhau eu safle fel canolfannau dysgu, addysgu ac ymchwil drwy uno neu gydweithio â'i gilydd. Ond oherwydd yr amgylchiadau daearyddol arbennig, rydym wedi dod i'r casgliad mai buddsoddiad sylweddol o'r Gronfa Datblygu Strategol sy'n gweddu orau i statws, hunaniaeth a chenhadaeth yr Athrofa."

Croesawyd y buddsoddiad gan yr Athro Michael Scott, Prifathro a Phrif Weithredwr Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru: "Mae hyn yn dangos cymaint o ffydd sydd gan CCAUC yn y gwaith yr ydym ni'n ei wneud yma yn yr Athrofa. Bydd yn galluogi'r sefydliad i barhau'n arweinydd ym maes datblygu technoleg ddylunio yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru, gan adeiladu ar waith tair ysgol alwedigaethol yr Athrofa, sef Ysgol Celf a Dylunio Gogledd Cymru, yr Ysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r Ysgol Cyfrifiadureg a Thechnoleg Gyfathrebu."

Diwedd

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag
Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebiadau CCAUC, 029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Nodiadau

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- yr ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

Y Gronfa Datblygu Strategol
Mae Cronfa Datblygu Strategol CCAUC yn cynnig cymorth ariannol i sefydliadau addysg uwch i'w helpu i hybu ein blaenoriaethau strategol.

Gan ategu ein Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio, fe'i defnyddir yn ôl ein disgresiwn i gefnogi datblygiadau cydweithiol llai drud a chynlluniau strategol ar gyfer y DU gyfan. Gwneir y buddsoddiad hwn yng ngoleuni strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, *Ymgeisio'n Uwch*, sy'n pwysleisio'r angen i ehangu mynediad a hybu cydweithio ac ailgyflunio ar raddfa fawr yn y sector addysg uwch yng Nghymru.